# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Rhaglen Trydaneiddio Prif Linell Great Western

### Cyflwyniad

1. Yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2013 codwyd mater y cynllun arfaethedig i drydaneiddio'r brif linell rhwng Llundain ac Abertawe. Yn benodol, pwysigrwydd sicrhau cysylltedd ag Abertawe ac y dylai'r gwaith o drydaneiddio'r brif linell ddechrau yn Abertawe a Llundain ar yr un pryd.

2. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa bresennol o ran y rhaglen i drydaneiddio Prif Linell Great Western (GWML) i Abertawe.

### Y Wybodaeth Ddiweddaraf

3. Bydd y rhaglen drydaneiddio, am y bydd y gwaith yn cael ei wneud fesul cam, yn arwain at drenau trydan newydd yn rhedeg o Fryste i Lundain saith mis cyn y byddant yn rhedeg o Gymru i Lundain

4. Caiff y trenau trydan “Intercity Express” newydd (a elwir yn “IEP”) eu cyflwyno ar wasanaethau i Fryste ym mis Mai 2017, Caerdydd ym mis Rhagfyr 2017 ac Abertawe ym mis Mai 2108. Dyma sut y bwriedir cyflawni'r prosiect yn dilyn penderfyniadau olynol i drydaneiddio'r llinell i Gaerdydd ac wedyn Abertawe. Mae'r amserlenni hefyd yn cyd-fynd â'r penderfyniad i drydaneiddio Rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd.

5. Ni chadarnhawyd yr union amserlen ar gyfer cyflwyno trenau “IEP” a bydd yn fater ar gyfer manyleb masnachfraint nesaf Great Western y disgwylir iddi ddechrau ym mis Gorffennaf 2016. Gosodir y fasnachfraint hon gan yr Adran Drafnidiaeth.

6. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi contract gwerth biliynau o bunnoedd ag Agility Trains i adeiladu'r trenau “IEP” newydd. Mae'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r trenau newydd wedi'i chadarnhau ac mae'n sicrhau bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i drydaneiddio prif linell Great Western yr holl ffordd i Abertawe. Bydd cyfleuster cynnal a chadw i wasanaethu'r trenau newydd yn Abertawe.